# Blwyddyn 2

# Blwyddyn 2 Miss Gwenter



































# Gwrando ar y Dysgwyr


## Beth ydyn ni eisiau dysgu?

"Rydw i eisiau gwneud mwy o ysgrifennu Cymraeg fel stori." Emily E
"Pethau am Sonic." Leo
"Creu pethau mas o glai." Harrison a Charlie
"Adeiladu ar Minecraft." Tal
"Dysgu am anifeiliaid fel ci selsig." Alice
"Dysgu am 'princesses' a siocled!" Emily.T
"Roblox." Morgan
"Heriau Dojo yn yr ardal ddŵr." Charlotte
"Coginio pethau fel byrgers." Harper
"Dysgu am hufen ia a chreu hufen iâ." Lilly
"Mwy o waith Mathemateg." Harrison
"Cyfle gwisgo lan yn y dosbarth." Tal
"Mynd i'r eglwys." Elian
"Mynd i chwarae golff." Charlie
"Mwy o waith ar yr anghenfil lliw." Lilly
"Cael ffonau symudol yn y bocs gwisg ffansi." Emily E.
"Mynd ar drip ar y bws." Emily.T

Wythnos 3
16/09/24

# Dychwelyd i'r Ysgol...

Dychwelyd i'r Ysgol...







Rydym wedi bod wrth ein boddau yn setlo nôl mewn i fywyd ysgol ym Mlwyddyn 2. Rydym wedi gwneud llawer o waith ar y rheolau dosbarth ac ysgol. Darllenom stori'r anghenfil liw a dysgu ei fod yn iawn i deimlo teimladau gwahanol.

Yn ein gwersi Iaith a Llythrennedd rydym wedi bod yn gwneud llawer o waith yn adeiladu brawddegau Aled Afal gan gofio i ffurfio llythrennau'n gywir, gadael bwlch bys a defnyddio prif lythyren ac atalnod llawn. Yn









Rwy'n gydweithiwr...

Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.



Rwy'n feddyliwr...

Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.




Yn ein hardaloedd annibynnol fe wnaethom ddefnyddio toes i ddangos ein hemosiynau, creu angenfilod lliw, llunio portreadau a adeiladu tŷ gyda meini prawf llwyddiant penodol.



Rydym wedi bod yn brysur yn dysgu sut i osod waith Mathemateg allan yn daclus yn ein llyfrau, cyfri o 1-100, trefnu rhifau a chyfri ymlaen ac yn ôl. Yn ein hardal Fathemateg fe wnaethom defnyddio plycwyr i gyfri pom poms ac adeiladu tyrrau Lego.






Rwy'n hunan-rheolwr...

Rwy'n wydn ac yn fyfyriol.


**Ymarfer Corff** - Pwysigrwydd gwneud ymarfer corff, gemau cystadleuol mewn timoedd.
**Lles/Jigsaw** - Stori'r Anghenfil Lliw. Trafod gwahanol emosiynau. Hawliau plant ac ein hofnau am ddychwelyd i'r ysgol.



Wythnos 4
23/09/24

# Dychwelyd i'r Ysgol...

Dychwelyd i'r Ysgol...




## Hwb

Ymarferom ni ddefnyddio ein cyfrif Hwb wythnos hon. Roedd rhaid i ni fewngofnodi, tinceran gyda J2e a darganfod teilsen i chwarae gemau Iaith a Mathemateg.





[redacted]



Yn ein gwersi iaith a llythrennedd fe wnaethom ni ysgrifennu portreadau. Defnyddiom meini prawf llwyddiant i ysgrifennu rhai ein hun. Bydd rhain yn cael eu gwneud pob tymor. Dechreuom ni ein sesiynau darllen lle rydym yn symud o gwmpas 4 tasg dros yr wythnos.

Yn ein cwtsh darllen yr wythnos hon, chwaraeom ni gêm Aled Afal. Roedd rhaid cuddio cymeriadau a defnyddio geirfa Cymraeg i ddarganfod nhw. Yn y gweithdy creadigol, chwaraeom gêm rholio dis a darllen tabl i greu anghenfil ein hun!








Rwy'n gydweithiwr...


Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.



Ymarfer Corff - Sesiwn rygbi gyda'r Scarlets.
Lles/Jigsaw - Stori'r Anghenfil Lliw. Trafod sut i ddelio gyda theimladau. Trafod gwobrwyon a chanlyniadau 'n hymddygiad



Gwnaethom ni lawer o waith gyda'r Numicon wythnos hon. Dysgom sut i gyfri gyda nhw a sut i'w defnyddio i helpu ni gyfri.







Wythnos 5
30/09/24

# Dychwelyd i'r Ysgol...

Dychwelyd i'r Ysgol...

Aethom ar daith o gwmpas yr ysgol i ddarganfod eitemau'r Hydref. Roedd rhestr o bethau i ddarganfod. Trafodom y tymhorau a sut mae'r tywydd, coed, planhigion ac anifeiliaid yn newid. Dysgom am y draenogod yn gaeafgysgu ac roedd rhaid creu cartref iddyn nhw.



Rwy'n feddyliwr...
Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.

Rwy'n gydweithiwr...
Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.

Dysgom sut i ddefnyddio gwahanol adnoddau i helpu ni adio e.e. numicon, llinell rhif, gwrthrychau. Yn ein hardal Fathemateg roedd rhaid cyfri cardiau Numicon a chysylltu pegiau i'r atebion cywir.







Rwy'n hunan-rheolwr...
Rwy'n wydn ac yn fyfyriol.

Darllenom ein portreadau i'r dosbarth a thrafodom beth oedd yn dda am y portreadau a beth allen ni eu gwella. Defnyddiom y system marcio (pin perffaith a gwyrdd gwella) i'n helpu. Roedden ni wedi ail-ddrafftio'r gwaith gan gofio i geisio cyflwyno'r Gwaith yn daclus.









Rwy'n ymchwiliwr...
Rwy'n chwilfrydig ac yn medru dyfalbarhau.

Ymarfer Corff. - ymarfer sgiliau taflu a dal peli.
Lles/Jigsaw - Trafod gwobrwyo a chanlyniadau a sut rydyn ni gallu rheoli rhain.







Yn ein hardal greadigol roedd rhaid ymchwilio sut mae'r coed yn newid trwy'r tymhorau a pheintio nhw wrth iddyn nhw newid. Yn ein hardal ysgrifennu fe wnaethom ffurfio brawddegau Aled Afal ac yn ein hardal ddigidol defnyddiom iPads i recordio ni'n cyflwyno ein hun.

Wythnos 6
7/10/24

# Dychwelyd i'r Ysgol...

Dychwelyd i'r Ysgol...

Cawsom llawer o hwyl yr wythnos hon yn dysgu sut i ddefnyddio 'Puppet Pals'. Cawsom amser i dinceran, wedyn roedd rhaid i ni greu fideos yn gofyn ac ateb cwestiynau 'Wyt ti'n hoffi...?' Roedd yn ddoniol defnyddio lleisiau gwirion!







Yn ein hardal ddigidol defnyddiom raglen Jit i fewnbynnu lluniau a recordio'n llais. Yn ein hardal fathemateg cyfatebom luniau'r Hydref i greu bondiau 10 a 20. Creom lluniau o ddraenogod gyda adnoddau'r Hydref ac roedd rhaid bod yn greadigol a chreu cartref i'r draenog yn ein hardal adeiladu tu allan!









Rwy'n gyfathrebwr...

Rwy'n ymatebol ac yn barchus.

Rwy'n gydweithiwr...

Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.

Yn ein sesiynau Mathemateg a Rhifedd fe wnaethom wneud llawer o waith yn dysgu sut i fesur. Mesuron ni bethau gyda blociau a 'pom poms' ac yna bren mesur. Mesuron eitemau o gwmpas y dosbarth a ffurfio llinellau yn ein llyfrau.




Rwy'n feddyliwr...

Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.

Aethom i'r capel ar gyfer ein Gwasanaeth Cynhaeaf. Dysgom bwysigrwydd bod yn ddiolchgar a chaneuon llawer o ganeuon.



Ymarfer Corff - ymarfer sgiliau taflu a dal peli.
Lles/Jigsaw - Ein siarter Dysgu





Wythnos 7
14/10/24

# Dychwelyd i'r Ysgol...

Dychwelyd i'r Ysgol...

Yn ein sesiynau Iaith a sesiynau Cynllun Clonc fe wnaethom barhau i ymarfer gofyn ac ateb cwestiynau. Gwyliom ein fideos Puppet Pals er mwyn ein helpu. Darllenom stori Paid Mynnu'r Berth i Gyd. Stori hyfryd am anifeiliaid yn gaeafgysgu. Atebon ni gwestiynau ar y stori.












Dysgom am germau ych a fi yr wythnos hon. Fe wnaethom amrywiaeth o arbrofion oedd yn dangos i ni ba mor gloi mae germau yn lledaenu a pham mae defnyddio sebon yn bwysig. Cynlluniom ni arbrawf i weld pa mor bell mae germau tisian yn teithio.






Sganiom codau QR er mwyn gwrando ar storïau yn y Cwtsh Darllen ac yna roedd rhaid creu clawr newydd ar gyfer y llyfr. Yn ein hardal ysgrifennu fe wnaethom greu brawddegau'n disgrifio'r draenog.


Rwy'n feddyliwr...





Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.


Rwy'n ymchwiliwr...



Rwy'n chwilfrydig ac yn medru dyfalbarhau.







Roeddem ni wrth ein boddau yn dathlu diwrnod Shwmae! Diwrnod llawn hwyl a sbri sy'n atgoffa ni ba mor lwcus ydyn ni i siarad Cymraeg. Cawsom hwyl yn ffilmio pawb yn dweud 'SHWMAE'!

Ymarfer Corff. - ddatblygu sgiliau taflu a dal pêl
Lles/Jigsaw - Ein siarter Dysgu.
Dathlu diwrnod Simae!

Wythnos 8
21/10/24

# Dychwelyd i'r Ysgol...

Dychwelyd i'r Ysgol...

Fe wnaethom gynnal yr arbrawf gwyddonol i ddarganfod os ydy tisw yn stopio germau tisian. Roedd yn llawer o hwyl a doedden ni methu credu pa mor bell oedd yn teithio heb disw! Ych a fi!! Mesuron ni'r pellter a chymharu'r canlyniadau.












Yn ein hardal berfformio roedd gennym ni fygydau er mwyn actio mas stori 'Paid Mynnu'r Berth i Gyd'. Roedd meini prawf llwyddiant i helpu ni gyda'r perfformio. Yn ein hardal Fathemateg fe wnaethon ni fesur rhannau'n corff a chymharu gyda phartner.





Rwy'n gyfathrebwr...

Rwy'n ymatebol ac yn barchus.

Yn ein sesiynau Mathemateg fe wnaethom ddysgu sut i fesur cynhwysedd. Casglom amrywiaeth o bethau gyda hylif ynddynt i ddangos meintiau gwahanol. Defnyddiom ni eirfa mesur cynhwysedd a mesuron ni mewn ml. Cawsom hwyl yn creu moctels gyda mesuriadau gwahanol.

Rwy'n gydweithiwr...

Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.

Rwy'n ymchwiliwr...

Rwy'n chwilfrydig ac yn medru dyfalbarhau.









Aethom ar drip i'r Jambori. Roedden wrth ein boddau yn canu a dawnsio i ganeuon Cymraeg. Mwynheuom ni ddisgo Calan Gaeaf i orffen yr hanner tymor! Joio mas draw!

Ymarfer Corff. - ddatblygu sgiliau gêm rygbi.
Lles/Jigsaw - Disgo Calan Gaeaf / Jambori

# Gwrando ar y Dysgwyr

## Beth ydyn ni'n gwybod?

"Mae siocled gallu pydru dannedd chi." (Charlie)
"Mae siocled Sonic." (Leo)
"Dydy siocled ddim yn iachus." (Emily.E)
"Ti gallu toddi siocled." (Alice)
"Rydych chi gallu cael siocled ar marshmallows."(Morgan)
"Pan mae pobl yn creu siocled mae nhw'n rhewi fe i wneud e'n galed." (Harrison)
"Mae siocled yn flasus iawn!" (Lilly)
"Mae Mamgu yn cael llyfr coginio a roedden ni wedi creu siocled buwch goch gota." (Elian)
"Mae ffactri siocled a fi wedi bod yna." (Emily T)

## Beth ydyn ni eisiau dysgu?

"Rydyn ni eisiau creu siocled mewn siâp ffon." (Lilly ac Ifan)
"Rydyn ni eisiau cyfle i greu siocled a rhoi e mewn siap YouTube." (Tal a Charlie)
"Gwneud gwaith ar siocled ar iPads." (Leo a Morgan)
"Rydyn ni eisiau mynd i ffactri siocled a blasu siocled. " (Emily, Elian a Harrison)
"O le mae siocled yn dod?" (Emily ac Alice)
"Rydyn ni eisiau creu cacennau siocled." (Charllotte a Harper)
"Rydw i eisiau dysgu am Charlie and The Chocolate Factory." (Lilly)
"Blasu siocled." (Hayden)

# Siopa am Siocled!

Wythnos 9
04/11/24




Fel sbardun i'n thema newydd gwyliom ni glip allan o ffilm 'Charlie and The Chocolate Factory. Roedd pawb yn gyffrous iawn i glywed SIOCLED bydd ein thema newydd. Cyn dysgu unrhyw beth fe wnaethom gyflawni grid 'Credu, Meddwl, Tybio' i gael ni i feddwl am ein thema.









Yn ein sesiynau Iaith a Llythrennedd fe wnaethom ysgrifennu cyfarwyddiadau sut i olchi dwylo. fe wnaethom ymarfer ein sgiliau cyfri. Ymarferom yn defnyddio sgwariau cant, llinellau rhif, gwrthrychau ac yn ein pennau. Aethom ymlaen i gyfri heibio 100.



Yn ein hardaloedd annibynnol fe wnaethom dilyn cyfarwyddiadau i greu myffins dail, recordio ein hun yn canu hwiangerddi Cymraeg, gwylio fideos i greu lluniau siocled a chwarae gemau yn ymarfer bondiau 10 a 100








Newyddion cyffrous iawn - rydyn ni wedi agor ein 'Sied Siapiau'. Ardal i ymlacio, ymarfer ein strategaethau anadlu a gwneud ioga!





Ymarfer Corff. - ddatblygu sgiliau rygbi
Lles/Jigsaw - Derbyn bod pawb yn wahanol. Sesiynau canu Nadolig.



Rwy'n gydweithiwr...

Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.

Rwy'n hunan-rheolwr...

Rwy'n wydn ac yn fyfyriol.



Wythnos 10
11/11/24






# Siopa am Siocled!







Daeth ambiwlans a pharafeddyg i'r ysgol. Cawsom y cyfle i fynd ar yr ambiwlans a gofyn cwestiynau i'r parafeddyg Roedd yn hynod o ddiddorol!








Defnyddiom iMovie i recordio fideos yn dysgu eraill sut i olchi dwylo. Roedd rhaid recordio clipiau, ychwanegu sain ac ychwanegu geiriau. Dysgom sut mae pethau gallu bod yn solid neu'n hylif a dosbarthom ni eitemau o'r dosbarth.








Dysgom sut i ddehongli graffiau bar ac ymarfer ein sgiliau mesur trwy fesur pawb yn y dosbarth a chreu llinyn i ddangos y taldra. Fe wnaethom hefyd dechrau defnyddio rhaglen Winning With Numbers yn annibynnol.










Ymarfer Corff. - ddatblygu sgiliau rygbi / sesiwn sgwteri
Lles/Jigsaw - Cynnwys eraill wrth chwarae. Diwrnod pyjamas i godi arian ar gyfer elusen Plant Mewn Angen.



Roeddem yn lwcus iawn i dderbyn sesiynau sgwteri yr wythnos hon. Dysgom am ddiogelwch wrth fynd ar y sgwter, sut i wneud yn siŵr bod ein sgwter yn gweithio'n iawn a sgiliau er mwyn gallu reidio'r sgwter yn hyderus.



Wythnos 11
18/11/24




# Siopa am Siocled!

Rwy'n gydweithiwr...

Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.

Fe wnaethom gynnal arbrawf i weld sut oedd siocled yn newid o solid i hylif ac yn ôl. Roedd rhaid rhagfynegi o flaen llawn.








Yn ein sesiynau Mathemateg fe wnaethom casglu data a chreu graffiau bar. Aethom o gwmpas dosbarthiadau i ddarganfod hoff siocledi'r plant.

Fe wnaethom hefyd cwblhau'r Profion Cenedlaethol yr wythnos hon.

Her y thema yw i gynllunio a chreu siocled Nadolig i werthu yn y Bocs Bwyd. Dechreuom trwy gynnal gwaith ymchwil. Fe wnaethom edrych ar siopau ar-lein ac yna ddefnyddio rhaglen 'PicCollage' i gyflwyno'r siocledi a chost pob eitem.






Siopa am Siocled!

siocled (chocolate)

toddi (toddi)

oergell (fridge)

hylif (liquid)




Yn ein hardaloedd annibynnol fe wnaethom ysgrifennu portread Willy Wonka, creu symiau lliw a defnyddio rhaglen J2e i ddysgu geirfa pwnc trwy ychwanegu lluniau ac ymarfer teipio.



Rwy'n ymchwiliwr...


Rwy'n chwilfrydig ac yn medru dyfalbarhau.







Ymarfer Corff. - ddatblygu sgiliau rygbi
Lles/Jigsaw - Ddeall beth yw bwlio a sut i helpu




# Siopa am Siocled!

Wythnos 12
25/11/24




Darllenom ac atebom gwestiynau ar gyfarwyddiadau i greu siocled poeth Nadolig. Yna, defnyddiom raglen iMovie i greu fideo yn dangos sut i greu'r siolced poeth. Roeddem wedi yfed y siocled poeth ar ôl gorffen! Mmmmmmmm!





Cawsom hwyl yn blasu siocled yr wythnos hon - am waith caled!! Fe wnaethom gytuno ar siocledi penodol i flasu a gwerthuso fel rhan o'm gwaith ymchwil. Roedd rhaid gwerthuso golwg, blas ac ansawdd y siocled a mynegi barn am ein hoff un.




Rwy'n gyfathrebwr...
Rwy'n ymatebol ac yn barchus.

Wythnos brysur yn dysgu'r caneuon a sgript ar gyfer ein gwasanaeth Nadolig. Dim ond wythnos i fynd!







Rwy'n feddyliwr...
Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.











Rwy'n ymchwiliwr...
Rwy'n chwilfrydig ac yn medru dyfalbarhau.





Ymarfer Corff. - ddatblygu sgiliau rygbi.
Lles/Jigsaw - Datrys Problemau



Dysgom gwerth darnau arian. Aethom ar helf drysor i ddarganfod darnau arian ac eu trefnu. Cysylltom ddarnau arian gyda bariau siocled a chymharu prisiau siocledi ar y farchnad. Ymchwiliom fwy am sioledi - roedd rhaid edrych ar feinitau a golwg pecynau siocledi.

Rwy'n ymchwiliwr...
Rwy'n chwilfrydig ac yn medru dyfalbarhau.



# Siopa am Siocled!

Wythnos 13
a 14
02/12/24 a
9/12/24










Aethom mewn i grwpiau cydweithio i gynllunio ein siocled ar gyfer y Bocs Bwyd. Cynlluniom 4 syniad oedd yn cwrdd a'r briff. Roedd wedyn rhaid i ni gytuno ar ein syniad gorau ac esbonio ein rhesymau.

Gwasanaeth Nadolig!
Roeddem wrth ein boddau yn perfformio ein gwasanaeth Nadolig i'r Ysgol Gyfan ac yna i'n rhieni a theuluoedd. Aeth yr holl beth yn arbennig o dda!

Fe wnaethom hefyd mwynhau ein cinio Nadolig ysgol.





Rwy'n gydweithiwr...

Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.



Yn ein hardal greadigol cawsom yr her i greu sliperi i wisgo yn y ffatri siocled. Roedd rhaid mesur ein traed a dilyn briff. Yn y gegin fwd dilynom gyfarwyddiadau i greu bisgedi ar gyfer Sion Corn. Fe wneathom ddefnyddio Puppet

Rwy'n ymchwiliwr...

Rwy'n chwilfrydig ac yn medru dyfalbarhau.








Rwy'n gyfathrebwr...

Rwy'n ymatebol ac yn barchus.



Ymarfer Corff. - ddatblygu sgiliau rygbi
Lles/Jigsaw - Bod yn garedig



Rwy'n feddyliwr...

Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.



Wythnos 15
16/12/24





# Siopa am Siocled!


Wythnos llawn celf a chrefft. Dysgom dechnegau gwaith clai ac yna greom potiau Nadolig. Creom gardiau Nadolig trwy beintio ein bysedd ac yna greom galendrau trwy dynnu lluniau creadigol a pheintio.

















Aethom ati yr wythnos hon i greu ein siocledi Nadoligaidd. Fe wnaethom gytuno fel dosbarth ar bris i werthu'r siocledi. Roedd rhaid i'r pris fod yn fwy na beth oeddem wedi talu am y cynhwysion. Gwerthom ein holl siocledi yn y Bocs Bwyd!











Cawsom hwyl yn dawnsio a chanu i ganeuon Nadoligaidd a darllen stori Nadolig pob dydd. Aethom i'r sinema i wylio Paddington a chawsom barti yn y dosbarth i ddathlu ein bod ni wedi ennill dosbarth Cymraeg yr hanner tymor.





Ymarfer Corff - dawnsio Nadolig
Lles/Jigsaw - Dawnsio, canu a gweithgareddau Nadolig.





# Blodeuwedd

## Beth ydyn ni'n gwybod yn barod?

Mae Blodeuwedd yn hapus. Emily.E

Mae 'magic' yn y stori. Elian

Mae duwies yn y stori Blodeuwedd. Ifan

Mae owl yn y stori . Charlie

Mae daffodil yn flodyn. Layah

Mae'r tylluan yn edrych yn hapus. Charlotte

New blodyn yw Lily. Lily

Enw'r ferch yw Blodeuwedd. Emily T

## Beth ydyn ni eisiau dysgu?

Rydw i eisiau gweld bwni ac anifeiliaid yn y goedwig. Emily T

Rydw i eisiau gweld tylluan. Leo

Rydw i eisiau dysgu a thyfu blodau. Laylah

Dysgu am y dylluan. Morgan

Rydw i eisiau mynd i'r goedwig. Elian

Dysgu am stori Blodeuwedd. Charlotte

Rydw i eisiau dysgu am y 'gods'. Ifan

Rydw i eisiau dal tylluan. Lilly.

Trip i weld ble mae Blodeuwedd yn byw. Emily.E

# Mynd am dro i goedwig Trimsaran...



"Fi wedi gweld adar brown." Ifan

"Mae llawer o goed yna." Charlotte

"Roedd 'waterfall' yna." Emily.E



Mae gen i syniad... "Rydw i eisiau mynd i'r goedwig." Elian





























| | Y Goedwig | Yr Ysgol | Yr A |
|---|---|---|---|
| Pioden | | | |
| Aderyn y To | | | |
| Aderyn du | | | |
| Titw Tomos Las | | | |
| Peneuryn | | | |
| Robin goch | | | |
| Brân | | | |
| Tylluan | | | |
| Colomen | | | |



"Ni wedi cerdded yna." Lilly

"Learning about birds." Charlie

"Maybe I see an owl." Leo

# Wythnos 2
13/1/25

Dechreuodd ein sesiynau Kerbcraft! Roedden ni i gyd mor gyffrous. Daeth Andy i'r ysgol a dysgu ni reolau diogelwch. Aethom i'r maes parcio i ddechrau ein cwrs diogelwch ar yr heol.









Yn ein cwtsh darllen cawsom gyfle i ddarllen storïau Aled Afal gyda'r tedis Aled Afal. Roedd rhaid dweud y stori'n greadigol gyda ffrind. Yn ein hardal ysgrifennu fe wnaethom ysgrifennu brawddegau am Luigi Lemwn. Yn yr ardal Ymarfer corff roedd rhaid gwneud symudiadau ymarfer corff ac yna greu cylched ffitrwydd





Rwy'n gyfathrebwr...

Rwy'n ymatebol ac yn barchus.

Gwnaethom llawer o waith ar amser. Dysgom am drefn y dydd, sut i ddarllen cloc analog, aethom ar helfa amser a chwaraeom Bingo amser. Dechreuom ddysgu ein tabl 2 felly adeiladom ni dyrrau Lego.









Rwy'n hunan-rheolwr...

Rwy'n wydn ac yn fyfyriol.



Ymarfer Corff - Dawns
Lles/Jigsaw - Fy nhargedau

# Wythnos 3
20/1/25

Dysgom ATALNODI KUNG FU PANDA! Fe wnaethom ddysgu swydd atalnodi a dysgu symudiadau i wneud mewn brawddegau. Roeddem hefyd wedi troi mewn i athrawon ac yn marcio Gwaith. Roedd rhaid defnyddio pinc perffaith a gwyrdd gwella. Roeddem hefyd wedi mynd ati i greu iMovies gyda'r symudiadau.







Dechreuom stori Blodeuwedd, ond stopiodd Miss Gwenter hanner ffordd a roedd rhaid i ni ragfynegi beth oedd yn digwydd nesaf. Dechreuom ddysgu am Gymru, sut i ddarllen map a sut i leoli pethau ar fap.



Rwy'n gydweithiwr...

Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.


















Rwy'n feddyliwr...


Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.

Yn ein hardaloedd annibynnol fe wnaethom mesur hylif mewn i boteli a chwpanau. Dilyn cyfarwyddiadau i greu byrgers mwd a chwblhau gweithgareddau amseru.

Ymarfer Corff - Dawns
Lles/Jigsaw - Beth ydw i'n dda yn gwneud?

Rwy'n gyfathrebwr...


Rwy'n ymatebol ac yn barchus.



# Wythnos 4
27/1/25

Aethom ar drip i Goedwig Trimsaran. Roedden ni wedi gofyn i fyn lawr i'r goedwig i weld os roedd adar yna. Gwelsom ni llawer. Yna, aethom lan i gae yr ysgol i wneud helfa drysor, ond yn anffodus doedd dim llawer yna. Rydym wedi meddwl am llawer o ffyrdd i ddenu adar i'r ysgol.

Cynlluniom drip i'r Ardd Fotaneg. Cawsom llawer o wybodaeth ac roedd rhaid darganfod prisiau i fynd ar y trip a dewis y diwrnod gorau i fynd o ran tywydd. Cawsom hefyd cyfle i ddarganfod pethau ar y map a dewis ble yr oeddem eisiau mynd.


Trip i'r Ardd Fotaneg

| Llun 3ydd | Maw 4ydd | Mer 5ed | Iau 6ed | Gwe 7ed |
|---|---|---|---|---|
| 8° 3° | 9° 1° | 7° -1° | 7° -1° | 6° 1° |

| Pris Mynediad | |
|---|---|
| Oedolyn | £10.00 |
| Plentyn | £5.00 |
| Plentyn o dan 2 | AM DDIM |

| Pris Gweithgaredd | |
|---|---|
| Oedolyn | £4.00 |
| Plentyn | £3.00 |
| Plentyn o dan 2 | AM DDIM |

| Amseroedd | |
|---|---|
| Cyrraedd | 10y.b. |
| Gadael | 2y.p |
| Cinio | 12y.p |

Allwedd
1. Tŷ gwydr
2. Adar
3. Llwybr Gryffalo
4. Gwenynfa
5. Caffi
6. Maes Parcio

Rwy'n feddyliwr...
Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.




















Yn ein hardaloedd annibynnol fe wnaethom ddefnyddio'r we i ddarganfod lluniau o goedwigoedd a chreu Pic Collage. Hefyd, roeddem yn athrawon eto ac yn marcio a chywiro gwaith, creom graffiau gyda'n ddata o'r helfa ada a defnyddiom does i greu tablau.. Yn olaf, roeddem yn ffrio crempog i ddarganfod geiriau 'ei'.



Dysgom ni am goedwigoedd Cymru a pha fath o anifeiliaid bydden ni'n darganfod. Gwnaethom waith ymchwil i ddarganfod ffeithiau am yr anifeiliaid. Yna, defnyddiom atlas i leoli coedwigoedd Cymru ar fap.



Ymarfer Corff. - Dawns
Lles/Jigsaw - Sut alla i helpu eraill?

# Wythnos 5
03/02/25

Dysgom ni fwy am y dylluan trwy edrych ar fideos ar-lein, cardiau ffeithiau a llyfrau. Ysgrifennom ni frawddegau'n ddisgrifio'r dylluan. Defnyddiom ni fideos ar lein i greu llun o'r dylluan.



Yn ein gwersi Mathemateg a Rhifedd fe wnaethom ymarfer datrys problemau trwy ddilyn camau penodol. Yn ein hardal Fathemateg fe wnaethom defnyddio ein data adar i greu pictogram. Fe wnaethom hefyd ymarfer ffoneg yr wythnos drwy ffrio crempog!




Ymarfer Corff.
- Dawns greadigol
Lles/Jigsaw -
Helpu yn y gymued.





Rwy'n feddyliwr...

Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.


Syniadau

T Jones (Trimsaran Primary School)
At: J Gwenter (Trimsaran Primary School)
Maw 04/02/2025 17:53

Helo Blwyddyn 2,

Diolch am rannu'r syniad ar gyfer cartrefi adar. Mae'n drist i glywed doedd dim llawer o adar tu allan i'r ysgol.


Mae gennych uchafswm o £30 i wario. Rwyf wedi siarad gyda Mr Steffan Jones ac yn meddwl bod hyn yn rhesymol.

Dyma rhai syniadau... Gallwch chi ddewis yr un gorau a rhoi gwybod i mi.

Yn ein hardal garddio fe wnaethom ddilyn cyfarwyddiadau i blannu llysiau. Yn ein hardal ddarllen fe wnaethom ymarfer ein symudiadau Kung Fu Panda trwy adrodd brawddegau. Fe wnaethom hefyd troi mewn i athrawon a marcio a chywiro gwaith.

Rwy'n gydweithiwr...

Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.










Roedd Mr Jones wedi clywed ein syniadau i drio gael mwy o adar yn yr ysgol ac fe wnaeth e-bostio ni i ddweud bod cyllid ar gael i brynu tai adar. Byddwn yn e-bostio Mr Jones yn ôl unwaith yr ydym yn cytuno ar ba rai i brynu..

Rwy'n gyfathrebwr...

Rwy'n ymatebol ac yn barchus.



# Wythnos 6 a 7
10/2/25 17/2/25

DAETH DYLLUAN I'R DOSBARTH! Pan cyrhaeddon ni'r dosbarth heddiw roedd desg llawn bwyd a roedd sgrôl ar y llawr. Edrychon ni ar fideo o'r CCTV ac roedd tylluan wedi dod mewn i'r dosbarth a gadael y sgrôl! Roedd y dylluan wedi gofyn i ni osod byrddau ar gyfer gwledd priodas Lleu a Blodeuwedd. Roedd rhaid darllen y rysáit, mesur y cynhwysion a gosod y bwrdd. Llawer o waith ond gymaint o hwyl!

Fe wnaethom ddefnyddio ein brawddegau tylluan i greu iMovies yn dysgu eraill am dylluanod. Roedd rhaid dilyn cyfarwyddiadau, ychwanegu lluniau, teipio brawddegau a recordio ein lleisiau. Fe wnaethom hefyd gwneud ras gwestiynau lle roedd rhaid rasio yn erbyn y cloc i ateb cwestiynau ar dylluanod.





Rwy'n gyfathrebwr...


Rwy'n ymatebol ac yn barchus.





Yn ein hardal ddigidol fe wnaethom greu Puppet Pals yn gofyn ac ateb cwestiwn 'Oes gen ti...?' Yn ein hardal ysgrifennu fe wnaethon ni fynd ar J2e i ysgrifennu brawddegau disgrifio a recordio ein lleisiau yn dweud y brawddegau.





Rwy'n ymchwiliwr...

Rwy'n chwilfrydig ac yn medru dyfalbarhau.









Rwy'n gydweithiwr...

Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.







Yn ein hardal ymchwilio fe wnaethom ffeindio ffeithiau am adar ac yna creu model maint go iawn. Roedd rhaid edrych am fesuriadau hyd y corff a lled yr adenydd. Yn ein ardd garedig fe wnaethon ni greu bwydwyr adar. Roedd set o gyfarwyddiadau ac roedd rhaid pwyso'r cynhwysion. Rydym yn gobeithio bydd rhain yn atynnu mwy o adar i'r ysgol



Rwy'n gydweithiwr...

Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.







Rwy'n feddyliwr...

Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.

Ymarfer Corff -
Dawns greadigol
Lles/Jigsaw - Helpu yn y gymuned


# Wythnos 8 a 9
# 03/03/25 a 10/03/25



Rwy'n ymchwiliwr...

Rwy'n chwilfrydig ac yn medru dyfalbarhau.

Fe wnaethom wylio ein iMovies yr wythnos hon a chael chyfle i asesu'r fideos. Roedd rhaid dilyn meini prawf llwyddiant a lliwio gyda lliwiau'r goleuadau traffig. Roedd rhaid hefyd dweud sut y byddem yn gwella'r fideos tro nesaf.



Rwy'n hunan-rheolwr...

Rwy'n wydn ac yn fyfyriol.


| Meini Prawf Llwyddiant | | | |
|---|---|---|---|
| ✓ | Lluniau clir. | ☹ 😐 ☺ | |
| ✓ | Teitl ar ddechrau'r fideo. | ☹ 😐 ☺ | |
| ✓ | Siarad yn glir ac yn uchel. | ☹ 😐 ☺ | |
| ✓ | Ffeithiau am y dylluan. | ☹ 😐 ☺ | |

Yn ein hardaloedd annibynnol fe wnaethom greu cardiau gwybodaeth am adar trwy edrych trwy lyfrau ac yr y we. Yn ein cornel clonc fe wnaethom ymarfer caneuon ar gyfer y bore coffi ac yn ein byd bach fe wnaethom greu cymeriadau ac ail-ddweud stori Blodeuwedd.

Ymarfer, ymarfer ymarfer! Cawson ni ein sgript gwasanaeth. Sgript oedd yn dweud stori Blodeuwedd. Roeddwn wrth ein boddau achos roeddwn ni'n gwybod y stori yma'n dda. Dysgom ganeuon, cerdd a'r rhannau siarad.









Yn ein gwersi Mathemateg a Rhifedd fe wnaethom weithio ar ein lluosrifau. Chwaraeom llawer o gemau fel 'Hit The Button' a 'Go Fish'. Yna fe wnaethom gwblhau Gwaith ar ein tablau. Symudom ymlaen i ddatrys problemau geiriol lle roedd angen defnyddio ein tablau.

Dathlom ddydd Gwyl Dewi trwy wisgo ein gwisgoedd traddodiadol neu grys Cymru. Fe wnaethom ganu caneuon, lliwio a dysgu stori Dydd Gwyl Dewi. Fe wnaethom hefyd gwisgo i fyny ar gyfer Diwrnod Y llyfr a gwneud gweithgareddau hwyl.





Ymarfer Corff - Dawns greadigol
Lles/Jigsaw - Bwyta'n iach



# Gwasanaeth Blwyddyn 2

Blwyddyn 2 Ydyn Ni
1 a 2 ac 1,2,3
Blwyddyn 2 ydyn ni.
Cyrraedd yr ysgol
yn brydlon a llon,
Ysgol hapus ydyw hon.
Gweithio'n galed drwy y dydd,
Darllen, 'sgwennu a gwaith rhif.
Chwarae, chwerthin, canu cân,
Jiw ni wedi blino'n lân!
Edrych ar y cloc yn gloi,
Clywed y gloch - mae'n amser ffoi!
Plant Blwyddyn 2 y' ni,
Plant Blwyddyn 2 y' ni,
Plant Blwyddyn 2 y' ni,
Ydyn ni i gyd!




<u>Mae Gen Ti Ffrind</u>
Mae gen ti ffrind yn fi
Mae gen ti ffrind yn fi
Pan mae'r nos yn mynd yn hir
A ti'n bell i ffwrdd o dy wely clyd
Cofiwch am fy nghariad i
O-mae gen ti ffrind yn fi
O-mae gen ti ffrind yn fi.












<u>Yn Y Goedwig Fawr</u>
Mi gwrddais i â merch fach ddel (yn ble)
Yn y goedwig fawr (yn ble)
Yn y goedwig fawr (yn ble)
Yn y goedwig fawr
Mi gwrddais i â merch fach ddel (yn ble)
Yn y goedwig fawr
Yn y goedwig fawr
Ooo rwy'n dy garu di
O rwy'n dy garu di
Blodeuwedd rwyt ti mor hardd
O rwy'n dy garu di
O rwy'n dy garu di
Blodeuwedd rwyt ti mor hardd

Fe wnaethom adrodd stori Blodeuwedd yn ein gwasanaeth. Roeddwn wedi dysgu'r stori yn barod felly roedd e'n hwyl ail-ddweud y stori trwy actio a chanu.


# Wythnos 10 + 11
17/03/25 + 24/03/25

Ysgrifennom ni stori Blodeuwedd mewn ffurf Pie Corbett. Roedd wedi cymryd ni sbel i wneud ond roedd yn ffordd mor dda i ddysgu'r stori. Gweithiom ni mewn grwpiau i greu lluniau ar gyfer y brawddegau yn y stori.





O'r diwedd, roeddwn ni wedi cytuno ar eitemau i brynu gyda'r arian roeddwn wedi gwneud o'n siocledi Nadolig. Cawsom ni bleidlais a dewison i brynu 'Guess Who' a 'Connect 4'.






**Sent:** Monday, March 31, 2025 11:57:20 AM
**To:** T Jones (Trimsaran Primary School) <Tomos.Jones@trimsaran.ysgolccc.cymru>
**Subject:** Adar

Annwyl Mr Jones,
Helo sit wyt ti ?
Diloch am y e-bost.
Does dim Adar yn y ysgol .
Mae angen tar adar.
Rydw i wedi rhoi bird feeders rownd y ysgol.
Rydw i mon y trydith Opston osgwecwch yn dda.
Diloch
Emily .t

Roeddwn ni wedi cytuno ar ba bwydwyr adar i brynu felly roedd yn amser e-bostio Mr Jones yn ôl. Cynlluniom a chreom ddrafft o e-bost cyn mewngofnodi i ysgrifennu a danfon yr e-bost i Mr.Jones.



Yn ein hardaloedd annibynnol fe wnaethom sganio codau QR i wrando ar storïau a chreu clawr newydd, chwarae gemau lluosrifau ar-lein., casglu data teithio'r ysgol i greu graffiau ar J2e a pheintio map o Gymru.


Rwy'n gyfathrebwr...

Rwy'n ymatebol ac yn barchus.

Yn ein sesiynau Mathemateg fe wnaethom ni fwy o waith ar ein tablau trwy greu arae rhifau. Hefyd, aethom ymlaen i ddefnyddio ein bondiau 10 i ddatrys problemau bondiau 100.









Rwy'n gydweithiwr...

Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.


Ymarfer Corff. - Dawns greadigol
Lles/Jigsaw - Diogelwch Meddyginiaeth



# Wythnos 12
31/03/25

Defnyddiom ein map stori i ysgrifennu ein storïau Blodeuwedd. Defnyddiom meini prawf llwyddiant i gofio'r pethau pwysig. Trafodom resymau torri lawr coed. Roedd rhaid meddwl am resymau positif a negatif. Dosbarthom y rhesymau mewn i dabl.


Amser dawnsio! Ar ôl wythnosau o gynllunio ac ymarfer ein dawns Blodeuwedd roedd yn amser perfformio. Roeddwn wrth ein boddau. Fe wnaethom ffilmio'r ddawns ac yna asesu gyda meini prawf llwyddiant.













Rwy'n ymchwiliwr...
Rwy'n chwilfrydig ac yn medru dyfalbarhau.

Rwy'n gyfathrebwr...
Rwy'n ymatebol ac yn barchus.

Rwy'n gydweithiwr...
Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.

Roeddwn ni wedi ennill darllenwyr yr hanner tymor, felly fel gwobr aethom draw i'r caffi yn y ganolfan i gael cacen a ysgytlaeth, yna cawsom gyfle i chwarae yn y parc. Joio!














Yn ein hardaloedd annibynnol fe wnaethon ni ysgrifennu cyfarwyddiadau i blannu hadau, chwarae gem Bingo siapiau 2D, dilyn fideos Huw Aaron i greu lluniau adar a defnyddio 'j2Message' i ddanfon negeseuon i ffrindiau a Miss Gwenter.











Yn ein sesiynau Mathemateg a Rhifedd fe wnaethom ymchwilio siapiau 3d. Aethom o gwmpas y dosbarth yn edrych am siapiau, dosbarthu siapiau mewn i grwpiau a chofnodi nodweddion siapiau.



Ymarfer Corff. - Dawns greadigol
Lles/Jigsaw - Helpu yn y gymuned

# Wythnos 13
## 07/04/25


Fe wnaethom ni adrodd ein storïau Pie Corbett ar lafar. Defnyddiom y map stori a meini prawf llwyddiant i'n helpu ni.
Hefyd, fe wnaethom greu poster i annog eraill i blannu coed.




Yn ein hardaloedd annibynnol fe wnaethom greu map stori ein hun, ymateb i sgwrs ar J2Message, perfformio stori Blodeuwedd ar y llwyfan a chreu baner Cymru allan o does.








Yn ein sesiynau Mathemateg roeddwn ni wedi ymarfer darganfod y gwahaniaeth rhwng dau rhif. Defnyddion ni amrywiaeth o bethau i'n helpu. Symudon ymlaen i ddatrys problemau. Roeddwn ni hefyd wedi defnyddio cyfesurynnau a map o'r ysgol i ddarganfod adar a dewis ble i roi y bwydwyr adar.

Gorffennodd ein sesiynau Kerbcraft. Rydyn ni wedi dysgu gymaint o bethau pwysig. Rhoddodd Andy tystysgrif i ni.
Cawsom ni wasanaeth fawr i ddathlu'r Pasg.












Ymarfer Corff. -Symudiadau Ioga
Lles/Jigsaw - Gwasanaeth Y Pasg



# Riff Cwrel






## Beth ydyn ni'n gwybod yn barod?


Mae'r pysgod yn bwyta'r riff cwrel. Charlie
Mae gallu bod yn beryglus. Charlotte
Mae pethau yn tyfu ar y riff cwrel a dydyn ni ddim fod cyffwrth nhw. Emily E
Mae'r pysgod gallu bwyta pysgod eraill. Lilly
Mae'r riff cwrel yn helpu crwban y môr. Rhiannydd
Mae rhaid edrych ar ôl y riff cwrel a dim taflu sbwriel yn y môr. Elian
Mae siarcod yn nofio yn y riff cwrel. Emily T

## Beth ydyn ni eisiau dysgu?

Rydw i eisiau dysgu am y pysgod. Ifan
Rydw i eisiau dysgu am siarcod a pha mor gryf mae nhw gallu cnoi. Harrison
Siarcod. Hayden
Peintio lluniau crwban y môr. Morgan
Creu lluniau pysgod fel Nemo. Emily E
Rydw i eisiau dysgu beth mae siarcod yn bwyta. Elian
Cael tanc pysgodyn yn y dosbarth. Lilly
How to draw Nemo. Charlie








Wythnos 1
28/04/25

# Riff Cwrel





Roeddwn yn gyffrous i ddechrau ein thema newydd yn edrych ar swyddi Romodels.. I ddechrau fe wnaethom greu cwestiynau i ofyn Sam Gerrard sydd yn ecolegydd morol. Am swydd cŵl! Ar ôl hyn, gwylion ni fideo o Sam yn ateb llawer o'r cwestiynau.




Romodels

Rwy'n feddyliwr...
Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.

Rwy'n gyfathrebwr...
Rwy'n ymatebol ac yn barchus.




Yn ein sesiynau iaith a llythrennedd fe wnaethon ni ymchwilio ffeithiau am greaduriaid y riff cwrel. Yna, fe wnaethon ni ysgrifennu disgrifiad o'r creaduriaid.












Rwy'n ymchwiliwr...
Rwy'n chwilfrydig ac yn medru dyfalbarhau.

Rwy'n gydweithiwr...
Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.

Yn ein gegin yr wythnos hon fe wnaethon ni greu cacennau'r traeth. Roedd rhaid darllen cyfarwyddiadau a mesur i greu'r cacennau. Yn ein hardal ysgrifennu fe wnaethon ni greu ffeil ffeithiau ar greaduriaid y môr.






Ymarfer Corff. - Gweithgareddau Mabolgampau
Lles/Jigsaw - Edrych ar ôl ein byd

# Riff Cwrel

Wythnos 2 + 3
05/05/25 + 12/05/25






Rwy'n feddyliwr...
Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.

Yn ein hardal ddigidol fe wnaethon ni edrych ar luniau o sbwriel ar y traeth.. Yna fe wnaethon ni greu graffiau ar J2Data yn dangos y mathau o sbwriel sydd yn cael ei ddarganfod ar y traethau. Yn ein hardal fathemateg defnyddion ni amserydd i amseru amrywiaeth o weithgareddau.











Yn ein gwersi Mathemateg a Rhifedd fe wnaethon ni ymchwilio meintiau crwbanod y môr. Roedd gwahaniaeth enfawr, Ar ôl hyn, fe wnaethon ni greu lluniau go iawn a mesur mas maint y crwbanod.

Rwy'n ymchwiliwr...
Rwy'n chwilfrydig ac yn medru dyfalbarhau.

Rwy'n feddyliwr...
Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.

Roedd llawer o ymarfer ar gyfer y mabolgampau yr wythnos hon. Roedd y tywydd yn braf, felly aethon ni allan pob dydd i ymarfer y gweithgareddau. Roedd diwrnod Mabolgampau yn arbennig ac roedd pawb wedi mwynhau..













Rwy'n hunan-rheolwr...
Rwy'n wydn ac yn fyfyriol.



Ymarfer Corff. -
Gweithgareddau
Mabolgampau
Lles/Jigsaw - Edrych ar ôl ein hardal lleol

# Riff Cwrel

Wythnos 4
19/05/25



Rwy'n ymchwiliwr...

Rwy'n chwilfrydig ac yn medru dyfalbarhau.

Edrychon ni ar sbwriel yn y mor a sut mae'r sbwriel yn effeithio'r creaduriaid. Roedd yn drist iawn! Dysgon ni am ailgylchu a sut i leihau ein sbwriel. Defnyddion ni J2e i gyflwyno ein gwaith ymchwil.





Rwy'n feddyliwr...

Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.

Rwy'n hunan-rheolwr...

Rwy'n wydn ac yn fyfyriol.















Yr wythnos hon fe wnaethon ni ddilyn ein cyfarwyddiadau i blannu hadau yn ein gardd garedig. Yn ein hardal greadigol fe wnaethon ni ddefnyddio'r olwyn lliw a phaent dwr i greu celf creaduriaid y mor.











Ymarfer Corff. - Gweithgareddau Mabolgampau
Lles/Jigsaw - Ailgylchu

Dysgon ni llawer mwy am greaduriaid y riff cwrel. Yn ein hardal ymchwilio roedd rhaid i ni ddosbarthu lluniau anifeiliaid y mor. Defnyddion ni lyfrau a'r we i wirio ein hatebion. Hefyd, defnyddiom ni fideos 'How To draw' i greu lluniau realistig o anifeiliaid y mor.





# O'r Llyfr i'r Llwyfan

Sut mae stori yn troi mewn i sioe?

Dychymyg

Creadigrwydd

'Story tellers' (Storiwyr). Ifan

Y Stori. Hayden

Gwisgoedd yr anifeiliaid. Lylah

Defnyddio pethau fel brwsiys i greu gwair ar y llwyfan. Ifan

Cymeriadau. Tal

Caneuon. Lilly

Backgrounds ar y 'stage'. Alice

Coedwig yn y cefn. Emily. E

Beth mae pobl mynd i ddweud. Lilly


Dweud pwy oedd wedi ysgrifennu'r llyfr. Charlotte

Gwynt i greu y storm. Elian

Gwynt i greu y storm. Elian

'Musical Instruments'. Emily. T

Teitl Morgan




Sut mae stori yn troi mewn i sioe?

# O'r Llyfr i'r Llwyfan


Mynegiant

Dychymyg

Creadigrwydd

Wythnos 1 a 2
02/06/25 a 09/06/25

Dechreuon ni'r thema newydd trwy edrych ar glawr y llyfr 'Jambori'r Jyngl. Roedd rhaid labeli'r clawr a rhagfynegi beth oedd mynd i ddigwydd.







Daeth y brigâd dan allan i ddysgu ni am ddiogelwch tan. Dysgon ni sut i gadw'n ddiogel a phwysigrwydd cael larwm dan yn y tŷ! Dechreuom ni ein sesiynau canu ar gyfer y sioe. Roedd llawer o ganeuon cŵl fel 'Pishyn' a 'Million Dreams'





Yn ein hardaloedd annibynnol fe wnaethon ni ddosbarthu cloriau llyfrau ffuglen a ffeithiol, yna creu clawr newydd ar gyfer 'Jambori'r Jyngl'. Chwaraeon ni gemau haneru a dyblu.






Yn ein sesiynau Iaith fe wnaethon ni edrych ar enwau, ansoddeiriau a berfau. Creon ni frawddegau' am anifeiliaid y jyngl. Yn ein sesiynau mathemateg ymarferon ni amrywiaeth o gwestiynau o bethau yr ydym wedi dysgu ar draws y flwyddyn.

Rwy'n hunan-rheolwr...


Rwy'n wydn ac yn fyfyriol.



Rwy'n gyfathrebwr...

Rwy'n ymatebol ac yn barchus.

Ymarfer Corff. - Gemau Hwyl Lles/Jigsaw - Newidiadau




# O'r Llyfr i'r Llwyfan

Sut mae stori yn troi mewn i sioe?


Mynegiant

Dychymyg

Creadigrwydd


Wythnos 3 a 4
16/06/25 a 23/06/25

Yn ein sesiynau Iaith a Llythrennedd fe wnaethon ni edrych mwy mewn i anifeiliaid y jyngl o gwmpas y byd. Dewison ni anifail penodol a chasglu ansoddeiriau. Yna, fe wnaethon ni greu brawddegau. Fe wnaethom ni hefyd ymarfer brawddegau trwy wneud Kung Fu Panda!



Yn ein hardal ddigidol fe wnaethon ni fynd ar raglen J2e i fewnbynnu lluniau o'r we, yna ysgrifennu geirfa a brawddegau i ddisgrifio'r anifeiliaid. Fe wnaethom ni hefyd creu sgyrsiau gyda ffrindiau ar-lein. Fe wnaethom ni hefyd ddilyn 'How To Draw' i greu lluniau anifeiliaid y jyngl.





Rwy'n ymchwiliwr...
Rwy'n chwilfrydig ac yn medru dyfalbarhau.




Aethom ni mewn i grwpiau yn barod i actio allan stori Jambori'r Jyngl. Roedd rhaid edrych trwy'r llyfr i sortio cymeriadau, cefndir, cerddoriaeth a 'props'. Dewisom ni ar gymeriadau.





Dechreuodd y Profion Cenedlaethol neu "cwis dosbarth'. Ymarferom ni llawer o gwestiynau o fewn y dosbarth cyn gwneud y tri 'cwis'.






Rwy'n gydweithiwr...
Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.

Rwy'n feddyliwr...
Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.

Ymarfer Corff. - Gemau hwyl
Lles/Jigsaw - Targedau




Sut mae stori yn troi mewn i sioe?

# O'r Llyfr i'r Llwyfan

Mynegiant

Dychymyg

Creadigrwydd

## Wythnos 5 a 6
## 30/06/25 a 23/06/25

Edrychom ar nodweddion sgript cyn troi'r stori 'Jambori'r Jyngl mewn i sgript. Yna, aethom ati i ymarfer, ymarfer, ymarfer!

Aethom ar y we i ddarganfod cerddoriaeth i siwtio pob rhan o'r stori.

Rwy'n feddyliwr...
Gallaf feddwl yn agored ac yn greadigol.

OE CHWILIO'R CHWEDLAU. Roedd ein sioe wedi cyrraedd ac roedd pawb yn WYCH! Fe wnaethon ni joio mas draw yn canu yn y côr. Roedd mor cŵl i weld y sioe gyda'r holl oleuadau, effeithiau sain a chefndiroedd sgrin!






Aethom ni ar drip i'r traeth. Joio mas draw! Roeddwn lawr yn y tywod yn chwarae ac adeiladu cestyll tywod. Yna, aethom i'r parc i chwarae. Roedd yr haul yn gwenu trwy'r dydd!










Creom ein mygydau ar gyfer y sioe. Roeddwn ni wedi creu mwgwd anifail y jyngl a mwgwd parti yn defnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau. Cyn creu roedd rhaid dylunio ein syniadau. Yna, roedd yn amser perfformio. Roedd yn gymaint o hwyl. Roedd pawb lan yn dawnsio!
















Rwy'n gydweithiwr...
Rwy'n empathetig ac yn ddibynadwy.

Rwy'n gyfathrebwr...
Rwy'n ymatebol ac yn barchus.

Ymarfer Corff. - Gemau Hwyl
Lles/Jigsaw - Symud i Ddosbarth newydd





## Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n:

- gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am her ac yn eu mwynhau;
- datblygu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth honno a'i chymhwyso ar wahanol gyd-destunau;
- ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau;
- gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg;
- gallu egluro'r syniadau a chysyniadau y maent yn dysgu amdanynt;
- gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau;
- deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol;
- defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu a dod o hyd i wybodaeth a'i dadansoddi;
- yn ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol ac yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.

## Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n:

- cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion;
- meddwl yn greadigol er mwyn i ail-lunio a datrys problemau;
- yn adnabod cyfleoedd ac yn manteisio arnynt;
- mentro'n bwyllog;
- arwain ac yn chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol;
- mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau;
- rhoi o'u hegni a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa ac yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.






## Unigolion iach, hyderus sy'n:

- meddu ar werthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol;
- meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder,
- cadernid ac empathi;
- cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer corff ar iechyd
- corfforol a meddyliol yn eu bywyd bob dydd;
- gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel ac iach;
- yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol;
- gwneud penderfyniadau penderfynidadu pwyllog ynghylch eu ffordd o fyw ac yn rheoli risg;
- ffurfio perthnasoedd cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd;
- wynebu heriau ac yn eu trechu;
- meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallant;
- barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

## Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n:

- canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn;
- trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd;
- deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd;
- deall ac ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu;
- wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd, yn awr ac yn y gorffennol;
- parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol;
- yn dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaliadwyedd y blaned ac yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.